| | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 24 Gorffennaf 2024 |
| **Aelod Arweiniol/Swyddog** | Cyng Elen Heaton, Aelod Arweiniol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol / Nicola Stubbins, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Ann Lloyd, Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd |
| **Awdur yr adroddiad** | Katie Newe, Rheolwr Gwasanaeth: Gofal a Chymorth, ac Unigolyn Cyfrifol |
| **Teitl** | Adroddiad Arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) – Canolfan Ofal Dolwen, Dinbych |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Cwblhawyd yr Arolygiad AGC a gynhaliwyd ar Ganolfan Gofal Dolwen, Dinbych ar 29/2/2024 (Atodiad 1).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Darparu gwybodaeth am yr Arolygiad AGC diweddar a gynhaliwyd yng Nghanolfan Gofal Dolwen, Dinbych.

## 3. Beth yw'r argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried cynnwys yr adroddiad a rhoi sylwadau fel y bo'n briodol.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg. This document is available in Welsh.

# 4. Manylion yr adroaddiad

4.1. Mae Dolwen yn cynnig gwasanaethau gyda staff profiadol o fewn amgylchedd wedi'i addasu i ddiwallu anghenion y preswylwyr unigol.

4.2. Adeiladwyd Dolwen yn bwrpasol yn 1966 ac mae'n cynnig cyfleuster preswyl 32 gwely.

4.3. Mae lleoliadau yn cynnwys gofal tymor hir a gofal seibiant ac ailalluogi tymor byr. Mae yna hefyd gyfleuster gofal dydd o fewn yr adeilad.

4.4. Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf ar 28 Chwefror 2022.

4.5. Cynhaliodd AGC arolygiad dirybudd ar 29 Chwefror 2024. Cynhaliwyd yr arolygiad ar y safle dros gyfnod o ddiwrnod, yn ogystal ag adolygiad bwrdd gwaith o bolisïau, gweithdrefnau a dogfennau allweddol a ddefnyddir yn y gwasanaeth, megis cynlluniau gofal, asesiadau risg yn ogystal â chofnodion cynefino a goruchwylio hyfforddiant staff.

4.6. Rhoddwyd adborth llafar i'r Rheolwr Cofrestredig (RhC) a'r Unigolyn Cyfrifol ar 8 Ebrill. Yn ystod y cyfarfod hwn, dywedodd yr arolygydd y byddai'r gwasanaeth wedi cyflawni gradd dawel o dda.

4.7. Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella o ganlyniad i'r arolygiad.

4.8. Casgliadau cryno yn adroddiad AGC oedd;

*Mae Dolwen yn wasanaeth cyfeillgar a chroesawgar. Mae gan y cartref preswyl bedair uned ac mae canolfan ddydd y mae pobl yn y gymuned leol yn mynd iddi. Pan nad yw'r cyfleuster yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau dydd, mae ar gael ar gyfer cyfarfodydd a gweithgareddau i bobl sy'n byw yn y cartref. Mae gan bobl ddigon o leoedd cyfforddus i eistedd a sgwrsio yn y cartref, neu i fwynhau rhai o'r gweithgareddau sydd gan y gwasanaeth i'w cynnig.*

*Mae staff gofal yn adnabod pobl yn dda ac yn rhoi sylw i'w hanghenion. Maent yn dilyn cynlluniau personol clir a manwl, gan sicrhau bod anghenion iechyd a chymorth yn cael eu diwallu. Mae staff gofal yn glir ynghylch canlyniadau personol pobl ac yn eu cefnogi i gyflawni'r rhain.*

*Mae rheolwyr y gwasanaeth yn monitro perfformiad y gwasanaeth yn ofalus ac mae eu systemau yn helpu i nodi a gweithredu ar unrhyw faterion y maent yn dod ar eu traws. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd i sicrhau bod gofal a chymorth o ansawdd da yn cael eu darparu.*

4.9. Ymhlith y prif feysydd eraill yn yr adroddiad mae;

**Lles;**
Gall pobl ddewis sut i dreulio eu hamser ac mae amrywiaeth dda o weithgareddau ar gael…. Mae gan bobl ddewis o brydau bwyd a dywedasant wrthym eu bod yn mwynhau'r bwyd; disgrifiodd un person y bwyd fel un ‘gwych’….. Mae’r cydlynydd gweithgareddau yn trefnu siop o fewn y cartref, yn gwerthu byrbrydau a nwyddau ymolchi, ac mae hyn yn

cynnig cyfle i bobl wirfoddoli ar gyfer y gwasanaeth. Dywedodd pobl wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus i godi unrhyw faterion neu bryderon gyda'r staff gofal a'r rheolwyr.

**Gofal a Chymorth;**
Mae staff gofal yn adnabod pobl yn dda; roedd pobl yn eu disgrifio fel 'caredig a gofalgar' a 'rhagorol'… Mae staff gofal yn amyneddgar ac yn ystyriol o bobl ac yn sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu yn unol â'u cynllun personol….. Mae'r gwasanaeth yn lân ac yn daclus drwyddo draw.

***Amgylchedd;***
*Mae pobl yn byw mewn cartref sydd â digonedd o leoedd i eistedd ac ymlacio, mwynhau gweithgareddau, neu gyfarfod ag ymwelwyr….. Yn yr ystafell fwyta, gall pobl helpu eu hunain i gael paned o de o debot a ddarperir ar bob bwrdd amser bwyd. Mae yna ardal i eistedd ac ymlacio ar y landin gyda chypyrddau llyfrau, piano a radio. Mae yna hefyd ardal awyr agored gyda meinciau…. Mae cegin yn y ganolfan ddydd sydd ag arwynebau gweithio y gellir eu haddasu ac sy'n hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Roedd pobl yn falch o ddangos eu hystafelloedd i ni, a gwelsom eu bod wedi dod â rhai o'u heiddo a'u lluniau eu hunain o'u cartrefi i'w gwneud yn rhai eu hunain. Disgrifiodd un aelod o staff y gwasanaeth fel un 'cartrefol iawn'.*

***Arweinyddiaeth a Rheolaeth;***
*Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn sicrhau ei fod yn siarad â phobl a staff i fonitro sut mae'r gwasanaeth yn cyflawni canlyniadau pobl…. Hefyd, cwblheir adroddiad ansawdd gofal bob chwe mis ar gyfer y gwasanaeth….. Dywedodd y staff gofal wrthym fod y rheolwyr yn hawdd siarad â nhw ac yn gefnogol. Dywedodd un aelod o staff wrthym fod yr Unigolyn Cyfrifol yn ymweld bron bob wythnos a'i fod yn hawdd mynd ato. Mae staff gofal yn cael hyfforddiant craidd rheolaidd….. Mae'r rheolwr yn ymwybodol bod angen i staff gofal gael mynediad at hyfforddiant mwy arbenigol, megis hyfforddiant mewn dementia a chyflyrau iechyd penodol. Maent yn mynd i'r afael â hyn ac mae gan staff gofal fynediad at ddysgu ar-lein yn y meysydd hyn. Mae darparwr y gwasanaeth yn buddsoddi yn y gwasanaethau i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion pobl.*

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. **Yn Sir Ddinbych iachach a hapusach**, gofalgar, mae'r gwasanaeth yn darparu gofal a chefnogaeth i ddinasyddion sy'n byw yn y cartref gofal, gan ddiwallu eu holl anghenion corfforol, amgylcheddol ac emosiynol.

5.2. ***Yn Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu****, ysgrifennodd yr arolygydd "Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion iaith Gymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio, neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth"*

5.3. **Yn gyngor sy'n cael ei redeg yn dda ac yn perfformio'n dda,** mae'r adroddiad arolygu yn cydnabod bod y gwasanaeth yn cael ei arwain yn dda a'i reoli'n gyson dda.

## 6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Cynhwysir darpariaeth y gwasanaeth o fewn y cyllidebau a ddyrannwyd.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Yn gyffredinol, bydd angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer penderfyniadau neu gynigion ar gyfer newid er mwyn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau'r Gymraeg. Gan mai adroddiad ar ganlyniad arolygiad yw hwn, nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar lesiant

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Roedd trafodaeth gyda'r Aelod Arweiniol yn rhan hollbwysig o'r broses arolygu, dyma'r cyfle cyntaf i gyflwyno'r adroddiad yn dilyn ei gyhoeddi

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Ddim yn berthnasol

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae adroddiad yr arolygiad yn amlygu'r holl feysydd a nodwyd yr oedd angen eu gwella.